- Mewn amgylchiadau arbennig, person amhenodedig, allanol, os ydyw'r swyddog, er enghraifft, yn credu'n rhesymol bod y datgeliad yn gyfystyr â "methiant eithriadol o ddifrifol", neu os ydynt yn credu'n rhesymol y byddant yn dioddef niwed am wneud y datgeliad, neu eu bod yn credu'n rhesymol y bydd tystiolaeth sy'n gysylltieidg â'r camwedd yn cael ei gelu neu ei ddinistrio os gwneir datgeliad i'r Heddlu, neu os ydyw'r mater wedi bod yn destun datgeliad blaenorol; a'i bod yn rhesymol ymhob un o'r amgylchiadau hyn i wneud datgeliad.

## Datgeliad cymwys

Rhaid i'r datgeliad, ym marn rhesymol y datgelwr/wraig, gael ei wneud er budd y cyhoedd a dod o dan un o'r categorïau o gamweddau canlynol:

Os ydyw wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd
- cyflawni trosedd
- torri rhwymedigaeth cyfreithiol
- camweinyddiad cyfiawnder
- peryglu iechyd a diogelwch
- difrodi'r amgylchedd; neu gelu gwybodaeth ynghylch unrhyw un o'r uchod yn fwriadol.

## Er budd y cyhoedd

Does dim rhaid i ddatgeliad gael ei wneud mewn didwylledd i gael amddiffyniad cyfreithiol, ond rhaid iddo yng nghred rhesymol y swyddog fod er budd y cyhoedd.

Does dim diffiniad i beth a olygir gan fudd y cyhoedd, ond byddai Tribiwnlys yn ystyried nifer o faterion, megis nifer y bobl dan sylw a natur y camwedd, natur y buddiannau yr effeithir arnynt ac i ba raddau mae'r camwedd yn effeithio arnynt. Er enghraifft, byddai datgeliad am gamwedd sy'n effeithio ar fuddiant pwysig iawn, megis diogelwch y cyhoedd neu ran ohono, yn fwy tebygol i fod er budd y cyhoedd na datgeliad am gamwedd dibwys yn effeithio ar yr un nifer o bobl.

## Cred resymol

Er nad oes raid i honiad o gamwedd fod yn wir, rhaid bod gan y swyddog gred resymol bod y wybodaeth a ddatgelir yn tueddu i ddangos y camwedd a restrir uchod. Fodd bynnag, os gwneir y datgeliad i drydydd parti (heblaw am gynghorydd cyfreithiol) rhaid i'r swyddog dddangos hefyd bod ganddynt gred resymol bod y wybodaeth/honiad yn wir i raddau helaeth.

## Triniaeth niweidiol

Cyhyd â bod y datgeliad yn gymwys a gwarchodedig, mae gan y swyddog sy'n gwneud y datgeliad yr hawl statudol i beidio dioddef unrhyw niwed o ganlyniad.

## Diswyddo

Mae chwythu'r chwiban yn un o'r achosion prin lle mae'n bosib i swyddog heddlu a ddiswyddwyd gyflwyno cwyn o ddiswyddo annheg. Os ydyw'r driniaeth mor ddrwg gall swyddog hefyd benderfynu gadael a hawlio diswyddo deongliadol.

## Gweithredu Tribiwnlys Cyflogaeth

Mae'r prif swyddog yn ddirprwyol gyfrifol am weithredoedd y bobl sy'n gweithio iddo neu iddi. Gall swyddog sydd wedi dioddef niwed/diswyddiad oherwydd eu bod wedi gwneud datgeliad gwarchodedig geisio iawndal mewn Tribiwnlys Cyflogaeth. Rhaid i'r swyddog gysylltu gyda ACAS Cymodi Cynnar o fewn tri mis namyn un diwrnod o ddyddiad y weithred anghyfreithlon honedig. Am fwy o wybodaeth darllenwch wefan ACAS os gwelwch yn dda neu darllenwch http://www.acas.org.uk/media/pdf/h/o/Early-Conciliation-explained.pdf

Gall y Tribiwnlys ddyfarnu iawndal a allai gynnwys niwed i deimladau. Byddai dyfarniadau wedi eu seilio ar enillion a gollwyd ac nid ydynt yn amodol ar derfynau arferol iawndal diswyddo annheg. Dylid nodi bod gan Dribiwnlysoedd y gallu i dynnu hyd at 25 y cant o'r iawndal lle gwelant bod y datgeliad mewn annidwylledd.

POLICE Federation



# Chwythu'r Chwiban

### Cyngor ar godi mater sy'n peri pryder

Dylai Swyddogion Heddlu fedru datgelu unrhyw ganweddau i'r Heddlu fel y gellir clustnodi problemau a'u datrys yn gyflym o fewn y gwasanaeth. Mae'r bamffled hon yn rhoi gwybodaeth gyffredinol ynghylch gwneud datgeliad yn unol â Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

## Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd

Mae'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (fel y'i diwygiwyd) yn diogelu swyddogion heddlu rhag gorfod dioddef niwed a/neu golli eu swydd o ganlyniad i riportio amheuaeth o gamwedd gan yr heddlu neu gydweithwyr neu drydydd parti. Gelwir hyn yn "ddatgelu er lles y cyhoedd" neu'r term poblogaidd "chwythu'r chwiban". Er mwyn cael eu diogelu, rhaid i swyddogion gredu'n rhesymol bod camwedd yn digwydd, wedi digwydd neu ar fin digwydd a bod datgelu'r camwedd er budd y cyhoedd. Rhaid iddynt hefyd wneud y datgeliad yn y modd cywir i'r person cywir.

## Diogelu Cyfyngedig

Gall fod na fydd swyddog wedi ei dd/diogelu gan y gyfraith bob amser os ydynt, er enghraifft, yn datgelu honiadau o gamwedd i'r wasg neu'n torri cyfraith arall drwy chwythu'r chwiban; er enghraifft, os ydynt yn torri Deddf Cyfrinachau Swyddogol.

## Potensial i danio'n ôl

Gall chwythu'r chwiban gael canlyniadau difrifol ac anfwriadol, yn enwedig os gwneir datgeliadau am bartïon allanol.

Dylai swyddog gymryd cryn ofal i gadarnhau a ydyw'r datgeliad y dymunant ei wneud wedi ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth.

Er enghraifft, byddai datgeliad i berson allanol




ddim wedi ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth os mai elw personol yw pwrpas y datgeliad, e.e. os byddai swyddog yn gwneud datgeliad i dabloid ac yn derbyn tâl am y stori, gallai gweithredu yn y modd hwn achosi helynt i'r swyddog.

Yn y mwyafrif helaeth o achosion bydd yn ddigonol, i wneud datgeliad mewnol i'r person a enwir ym mholisi chwythu'r chwiban yr heddlu neu'r prif swyddog.

## Codi mater

Dylai swyddogion ddefnyddio gweithdrefn chwythu'r chwiban yr Heddlu. Gallant gael cyngor gan Gynrychiolydd Ffederasiwn yr Heddlu, a dylent wneud hynny os ydynt yn ystyried gwneud datgeliad sydd tu hwnt i weithdrefn yr Heddlu. Os ydynt yn cwyno am fater iechyd a diogelwch, dylent siarad â Chynrychiolydd Iechyd a Diogelwch Ffederasiwn yr Heddlu.

## Gwneud datgeliad

Er mwyn gwneud hawliad, mae'n rhaid i'r datgeliad o'r camwedd gydymffurfio gyda rhai rheolau. Mae'n rhaid bod y swyddog yn credu'n rhesymol bod y camwedd yn digwydd, ei fod er budd y cyhoedd i ddatgelu'r camwedd a rhaid i'r datgeliad fod yn gymwys a gwarchodedig.

## Datgeliad gwarchodedig

Mae datgeliad gwarchodedig yn un a wneir gan swyddog i'r person cywir yn y dull cywir, h.y. i:

- Brif Swyddog neu'r swyddog a enwir yng ngweithdrefn chwythu'r chwiban yr Heddlu
- Gynghorwr cyfreithiol yn y broses o gael cyngor cyfreithiol
- Berson "penodedig" tu allan i'r heddlu e.e. i'r IPCC, yn gysylltiedig â materion "penodedig"